



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Chwarae Clawdd Offa
Ysgol Clawdd Offa
Ffordd Clawdd Offa
Prestatyn
LL19 8AZ**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013

gan

**Mr Eifion R Morgan
Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/052013

Cyd-destun

Mae Cylch Chwarae Clawdd Offa wedi'i leoli mewn ystafell yn ysgol gynradd Clawdd Offa Ysgol ym Mhrestatyn, Gogledd Cymru. Mae hon yn ysgol newydd sydd wedi'i lleoli ar gyrion Prestatyn mewn lleoliad lled-wledig. Mae mynediad uniongyrchol o'r brif ystafell ddysgu i ardal o darmac. Mae gan y Cylch Chwarae hawl i ddefnyddio cyfleusterau eraill yr ysgol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio gan yr ysgol. Ar hyn o bryd mae 52 o blant ar y gofrestr ac mae'r cylch chwarae wedi ei gofrestru gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i gymryd i fyny at 18 o blant mewn unrhyw un sesiwn. Yn ystod yr arolygiad, roedd 15 o blant 3 oed yn bresennol, gyda 13 yn cael eu hariannu. Mae'r plant yn mynychu o 2½ oed ac yn gadael ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Mae'r plant yn dod o'r ardal gyfagos - ardal o dai perchen-ddeiliaid ac mae'r ardal wedi'i disgrifio gan y cylch chwarae fel un nad yw'n freintiedig nac o dan anfantais gymdeithasol-economaidd. Mae'r cylch chwarae yn derbyn plant o gefndiroedd ethnig ac ar hyn o bryd mae 2 plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Does dim un plentyn yn siarad Cymraeg ac nid oes unrhyw blentyn yn dod o deulu sydd yn siarad Cymraeg. Mae pob un yn siarad Saesneg yn rhugl.

Mae'r cylch chwarae wedi cael ei arolygu'n flaenorol gan Estyn yn 2007 pan oedd wedi'i ei leoli yn Neuadd yr Eglwys ym Mhrestatyn. Symudodd i'w leoliad presennol 4 blynedd yn ôl. Mae rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad blaenorol wedi cael sylw. Mae'r rhain yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y plant a meysydd chwarae y tu allan ar gyfer eu datblygiad corfforol. Fodd bynnag, mae dau o'r argymhellion yn ymwneud â gwelliant yn y cynllunio tymor byr ac asesu heb ddatblygu'n llawn o hyd. Cafodd y lleoliad ei arolygu yn ddiweddar gan AGGCC ym mis Tachwedd 2012. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Digonol

Perfformiad presennol

Prif arfarniad

Mae perfformiad presennol y cylch chwarae yn dda oherwydd:

- y safonau a gyflawnir a chynnydd y plant;
- lles y plant, eu cyfranogiad a'u mwynhad wrth ddysgu;
- agweddau ac ymddygiad cadarnhaol y plant;
- y gofal, cymorth ac arweiniad sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- darpariaeth y lleoliad ar gyfer y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- y cysylltiadau â rhieni.

Fodd bynnag, mae meysydd i'w gwella gan gynnwys:

- defnydd yr asesu i gofnodi'r hyn mae'r plant wedi'i ei gyflawni ac i nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant;
- cynllunio'r profiadau dysgu a ddarperir ar gyfer y plant fel bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant;
- darparu amrywiaeth dda o weithgareddau i gymell a herio'r plant.

Rhagolygon gwella

Prif arfarniad

Mae rhagolygon gwella'r cylch chwarae'n ddigonol gan fod:

- y plant yn cael eu cymell yn dda ac yn ymateb yn dda.

Ond mae'r meysydd i'w gwella sydd angen eu gweithredu'n syth yn cynnwys:

- cynllunio strategaethau i'r dyfodol yn seiliedig ar hunanarfarnu effeithiol;
- datblygu cynllun datblygu effeithiol gan flaenoriaethu meysydd i'w gwella;
- cynnwys yr awgrymiadau ar gyfer gwella sydd wedi'u nodi gan athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol.

Argymhellion

Mae angen i'r cylch chwarae:

- A1. ddatblygu gweithdrefnau asesu i nodi'r hyn mae'r plant wedi'i gyflawni a'r camau nesaf yn eu dysgu;
- A2. darparu mwy o amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o ddarpariaeth barhaus y plant sy'n eu herio'n briodol;
- A3. sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant;
- A4. nodi'n glir y meysydd i'w gwella yn seiliedig ar hunanarfarnu;
- A5. llunio cynllun datblygu sy'n cynnwys blaenoriaethau, graddfa amser, targedau a meini prawf.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig o'u man cychwyn. Mae pob plentyn yn cymryd rhan weithredol yn fuan yn y tasgau a osodir ar eu cyfer, a dim ond yn colli diddordeb pan fydd cyfnodau o amser ar gyfer gweithgareddau yn rhy hir. Mae'r holl blant yn gwneud dewisiadau ac yn dyfalbarhau yn dda ar dasgau sy'n eu cymell.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau cyfathrebu da. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn brydlon ac yn fodlon. Mae eu hiaith yn datblygu'n dda ac maent yn gwneud eu hunain yn ddealladwy gan ddefnyddio geirfa dda. Mae'r holl blant yn mwynhau gwrando ar storïau ac mae'r plant mwy galluog yn adnabod cymeriadau mewn llyfrau stori. Arsylwyd ychydig o blant yn creu marciau ac maent yn ymwybodol o rai o swyddogaethau ysgrifennu. At ei gilydd, mae medrau llythrennedd y plant yn nodwedd arbennig o dda yn y cylch chwarae.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau rhif da – mae'r rhai mwy galluog yn cyfrif yn gywir tu hwnt i 10 ac maent yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destun perthnasol. Tanddatblygedig yw eu gwybodaeth o batrwm, dilyniannau a pherthnasoedd.

Mae pob plentyn yn chwarae gydag offer digidol, fel tiliau a ffonau symudol. Fodd bynnag, nid oes cyfrifiaduron gan y plant ac felly nid ydynt yn medru datblygu eu sgiliau cyfrifiadurol.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ddealltwriaeth sylfaenol o eiriau Cymraeg syml ac yn deall mwy nag y gallant eu siarad. Mae'r plant mwy galluog yn ailadrodd geiriau cyfarwydd. Mae'r holl blant yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn gyflym i awgrymiadau a chyfarwyddiadau. Fodd bynnag, nid yw'r iaith Gymraeg wedi'i datblygu'n ddigonol.

Lles: Da

Mae gan bob plentyn agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac yn dangos diddordeb mewn gwaith sy'n eu cymell. Ar y cyfan, maent yn canolbwyntio am gyfnodau sylweddol o amser a dim ond yn colli diddordeb pan mae gormod o amser yn cael ei benodi ar gyfer gweithgaredd. Mae'r holl blant yn dangos ymddygiad da ac maent yn ystyriol i eraill. Maent yn ymwneud yn dda â'i gilydd.

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth briodol o gadw'n lân ac yn iach mewn perthynas a'u hoedran. Maent yn golchi eu dwylo ar ôl gweithgareddau heb anogaeth gan ymarferwyr. Nodwedd nodedig yw hyder y plant sy'n deillio o deimlo'n ddiogel ac yn rhydd o unrhyw gam-drin corfforol neu eiriol yn y lleoliad.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r staff yn cyfarfod bob wythnos i gynllunio'r cwricwlwm, ac mae hyn yn galluogi cyfranogwyr i gydweithio ac i wybod beth a ddisgwylir ganddynt. Mae dull thematig yn cael ei ddefnyddio a chynlluniau gwaith wythnosol yn cael eu paratoi sy'n cynnwys y 6 maes dysgu a nodir yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd clir o sut y mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol y plant.

Mae pob plentyn yn dechrau caffael eu sgiliau sylfaenol, yn enwedig eu sgiliau cyfathrebu, gan eu galluogi i gael mynediad i feysydd dysgu. Er bod staff yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl plant, nid oes darpariaeth gydlynol ar gyfer datblygu sgiliau plant yn gynyddol.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog plant i ffurfio perthynas dda ac mae pob plentyn yn dangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae'r plant yn cael eu parchu fel unigolion ac mae'r staff yn sensitif i'w hanghenion unigol. Mae'r plant yn cael cefnogaeth dda ac maent yn hyderus. Maen nhw'n dewis eu hoff weithgareddau yn y dosbarth a thu allan ac maent yn dangos lefel dda o annibyniaeth.

Mae'r holl blant yn cael eu hannog i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ond yn anaml mae'r plant yn defnyddio geiriau Cymraeg. Mae'r iaith yn cael ei defnyddio yn achlysurol gan y staff trwy gydol y sesiynau ac yn fwy ffurfiol yn ystod trafodaeth grŵp. Mae'r cynllunio hefyd yn cynnwys cyfeiriad at rai o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r cyfleoedd i blant ddysgu am ailgylchu yn gyfyngedig ac nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Addysgu: Digonol

Mae gan yr ymarferwyr lawer o flynyddoedd o brofiad o weithio gyda phlant ifanc ac mae ganddynt ddealltwriaeth o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd rhan mewn cynllunio ac yn cael eu briffio'n dda am eu rolau. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o blant, yn enwedig o ran eu hymddygiad ac mae hyn yn cael ei gadarnhau yn ymarferol. Caiff y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi'n dda.

Mae'r gweithgareddau, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored yn canolbwyntio ar y plentyn gyda chymorth oedolyn. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnal diddordeb y plant, ond yn aml maen nhw'n rhy hir ac nid ydynt yn eu herio bob amser yn ddigonol. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn elwa o'r strategaethau ymddygiad cadarnhaol a ddefnyddir gan y staff, a thrwy ganmol ymddygiad da a chael disgwyliadau uchel o'r plant.

Mae'r staff yn fodolau iaith da ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i atgyfnerthu'r dysgu ac i annog plant i feddwl drostynt eu hunain.

Mae'r staff yn ymwybodol iawn o allu a chynnydd plant ac yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth holi a chefnogi plant unigol. Caiff cyflawniadau y plant eu cofnodi yn eu llyfrynnau "Chwarae i Ddysgu / Dysgu i Chwarae." Mae'r cofnodion cyflawniad hyn yn mynd gyda'r plant pan fyddant yn symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Fodd bynnag, drwyddi draw, nid yw asesu yn cael ei ddefnyddio'n adeiladol gan nad yw'r gweithgareddau yn y dyfodol yn cael eu cynllunio i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant. Nid yw'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant yn cael eu nodi sy'n arwain at ddiffyg her, yn enwedig ar gyfer y rhai mwy galluog.

Dywedodd rhieni eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant drwy drafodaethau rheolaidd â'r staff.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae gan y plant ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn gweithredu'n unol â hynny. Mae llawer o blant yn dangos blaengaredd fel wrth helpu staff i glirio i ffwrdd. Yn eu chwarae maent yn dangos eu bod yn gallu rhannu gydag eraill. Mae bron pob plentyn yn deall disgwyliadau'r cylch chwarae o ran ymddygiad ac wedi addasu'n dda i fyw fel cymuned.

Mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu defnyddio'n dda i gefnogi datblygiad plant. Mae cysylltiadau effeithiol a sefydlwyd gyda gwasanaethau proffesiynol yn cael eu cyfeirio'n dda at gefnogi plant sydd ag anghenion penodol. Mae plant dan amheuaeth o fod ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu monitro'n agos ac mae cymorth yn cael ei drefnu yn ôl yr angen. Mae'r staff yn ymateb i bryderon rhieni gan ymateb yn gyflym er mwyn galluogi plant o'r fath i gael cymorth cyn gynted â sy'n bosib. Mae athro ymgynghorol yr awdurdod lleol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol sydd ag arbenigedd mewn plant yn y Cyfnod Sylfaen wedi darparu cymorth amhrisiadwy. Mae Cynlluniau Chwarae Unigol (a elwir fel arall fel Cynlluniau Addysg Unigol) wedi eu paratoi ac felly'n darparu'r sail angenrheidiol i ymdrin â phlant o'r fath. Mae cynlluniau o'r fath yn canolbwyntio'n glir ar faterion o bryder, targedau ac adnabod y ffordd ymlaen. Caiff rhieni eu cynnwys ym mhob cam. Mae hyn yn enghraifft o arfer da. Mae ymarferwyr y cylch chwarae hefyd yn gweinyddu'r feddyginiaeth angenrheidiol lle bo hyn yn angenrheidiol. Mae'r lleoliad yn darparu cymorth o ansawdd ar gyfer plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r trefniadau diogelu yn dda. Mae plant yn cael gofal da gan staff sydd yn dangos graddfa nodedig o hoffter ar gyfer y plant ifanc. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar mewn amddiffyn plant ac yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo arfer diogel.

Mae ddarpariaeth y lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid yw'n peri pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r lleoliad wedi sefydlu ethos sy'n gwbl gynhwysol ac yn sensitif i anghenion y plant. Mae'r holl blant yn cael eu parchu fel unigolion ac yn eu tro maent yn parchu ei gilydd ac oedolion sy'n gweithio yn y cylch chwarae. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i bob agwedd ar y cwricwlwm. Mae'r oedolion a'r plant yn dangos agwedd oddefgar ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn rhydd oddi wrth unrhyw fath o aflonyddwch ac ymddygiad gormesol. Mae polisiau a gweithdrefnau ar waith i leihau'r posibilrwydd o unrhyw fath o wahaniaethu i ddigwydd eto. Mae'r cylch chwarae wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer unrhyw blentyn sydd ag unrhyw fath o anabledd corfforol. Mae'r plant yn elwa o gyfleoedd cyfartal.

Mae yna ddigon o ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r adeilad wedi'i phenodi'n dda ac yn ddelfrydol ar gyfer cynnal y cylch chwarae. Mae'n rhan o ysgol gynradd ac yn elwa o ddefnyddio ei hadnoddau. Mae'r lleoliad a'r tir yn ddiogel. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'r adnoddau braidd yn brin o ran bodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r gweithgareddau yn cael eu gwahaniaethu'n ddigonol i herio pob plentyn nac yn darparu digon o amrywiaeth er mwyn ymestyn eu prosesau meddwl. Mae cyflymder y sesiynau hefyd yn tueddu i fod braidd yn araf.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Digonol

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, maent yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ategu ei gilydd. Ar y cyfan, mae'r ymdeimlad o bwrpas yn amlwg yn y cylch chwarae wedi ei gynllunio i sicrhau lles y plant ac mae hyn yn cael ei gyflawni yn ymarferol. Mae ymarferwyr yn rhannu'r nôd hwn ac yn ymateb i anghenion sylfaenol plant. Mae'r plant yn cael eu rheoli'n dda gan ddefnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac mae cysylltiadau effeithiol gyda rhieni. Fodd bynnag, tra bod y plant yn cael gofal da, nid oes digon o sylw wedi cael ei gyfeirio at wella'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant. Nid yw'r cynllunio wedi nodi'r nodau addysgol, ac ar y cyfan, nid oes targedau heriol wedi'u nodi. Nid yw anghenion addysgol penodol y plant wedi cael eu nodi'n glir ac nid yw'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant wedi'u nodi. Mae disgwyliadau a thargedau addysgol yn cael eu nodi ar gyfer yr ychydig blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid ar gyfer y mwyafrif helaeth o'r plant.

Mae'r rhieni, mewn trafodaeth, yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r hyn y mae'r plant wedi ei wneud yn ystod y dydd ond roeddent braidd yn amwys o ran yr hyn y gallent ei wneud i gefnogi dysgu eu plant.

Nid oes pwyllgor rheoli. Mae'r ddau arweinydd yn gyfrifol am redeg y cylch chwarae ar ran yr Awdurdod Lleol.

Mae'r cylch chwarae yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a dilyn mentrau Ysgolion Iach.

Gwella ansawdd: Anfoddhaol

Mae'r defnydd o hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad. Yn ei ffurf bresennol mae'n nodi'r hyn y mae'r cylch chwarae wedi'i gyflawni a'u categorio dan y pennawd yn yr "Arweiniad ar gyfer Arolygu lleoliad nas cynhelir" Estyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymgais i flaenoriaethu meysydd ar gyfer gwella ac nid oes sôn am strategaethau i'w gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant. Nid yw hunanarfarnu yn arwain at gynlluniau datblygu, targedau neu raddfeydd amser ar gyfer gwelliant. Nid yw rhieni yn cael eu cynnwys.

Er bod athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol wedi darparu canllawiau ar gyfer gwelliant yn gyson nid yw hyn wedi cael ei weithredu'n effeithiol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ymarferwyr wedi sefydlu perthynas dda gyda rhieni a gofalmwyr. Mae'r rhieni yn aros gyda'u plant i'w setlo i lawr wrth ddod â'u plant i'r cylch chwarae os oes angen, ac mae'r staff yn croesawu'r plant yn serchog. Mae'r staff ar gael bob amser i gwrdd â rhieni ac i siarad â nhw – caiff hyn ei werthfawrogi yn fawr iawn. Mewn trafodaeth, dywedodd rhieni eu bod yn hapus iawn gyda'r cylch chwarae ac yn gwerthfawrogi'r cysylltiad rheolaidd â staff.

Mae'r cylch chwarae yn mwynhau'r fantais o fod yn rhan annatod o adeilad yr ysgol. Mae'r plant yn teimlo'n rhan o'r ysgol ac mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gwrdd â'r athrawes Feithrin ac mae llyfrau cofnodion y plant ar gael i'r ysgol.

Trwy ei staff, mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi cyngor a chymorth o ansawdd da i'r cylch chwarae. Hyd yn hyn, nid yw'r cyngor, yn nhermau cynllunio, adnoddau ac asesu ansawdd wedi'i weithredu'n llawn.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r lleoliad yn elwa o ystafell addysgu a adeiladwyd yn bwrpasol o fewn ysgol sydd newydd ei hadeiladu. Mae gan y plant fynediad uniongyrchol i'r ardal chwarae y tu allan ac yn gallu gwneud defnydd o gyfleusterau'r ysgol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r plant yn canolbwyntio ar anghenion y cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae prinder adnoddau ymarferol yn annigonol i gymell a herio'r plant. Nid yw'r lleoliad wedi cynllunio ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd er lles y plant ac yn llwyddo i ddarparu amgylchedd y mae'r plant yn ei fwynhau. Mae'r ardal awyr agored yn rhoi cyfleoedd i blant ymestyn eu medrau, yn enwedig eu datblygiad corfforol a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafwyd cyfanswm o 16 o ymatebion. Roedd pob un yn gefnogol iawn o'r Cylch Chwarae. Roedd pawb yn cytuno'n gryf bod eu plentyn yn hoffi'r lleoliad. Mae dadansoddiad pellach o'r atebion yn cael eu crynhoi isod:

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymateb i ddatganiadau yn nhermau "cytuno'n gryf, yn cytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf neu ddim yn gwybod".

Roedd pawb wedi cytuno'n gryf neu gytuno â'r datganiadau canlynol.

Rwy'n fodlon â'r lleoliad at ei gilydd.

Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.

Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.

Mae'r addysgu yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.

Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.

Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Mae nifer fach o rieni / gofalwyr yn anghytuno gyda'r datganiad.

Rwy'n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.

Roedd hanner yr ymatebwyr wedi ychwanegu sylwadau ar eu hymatebion. Roedd pob un yn canmol y staff yn fawr am yr hyn y maent yn ei ddarparu yn nhermau profiadau ar gyfer y plant. Ymatebodd llawer gyda sylwadau canmoliaethus iawn am y staff, gan gynnwys eu cefnogaeth a'u bod yn hawdd mynd atynt. Roedd llawer hefyd wedi sôn am y cynnydd mae eu plant wedi ei wneud yn y cylch chwarae.

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y Cylch Chwarae. Maent yn awyddus i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau ac yn chwarae'n hapus gyda'u ffrindiau. Mewn trafodaeth, dywedon nhw eu bod yn edrych ymlaen at gwrdd â'u ffrindiau ac yn mwynhau chwarae y tu allan yn arbennig.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan

Arolygydd Cofnodol

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn
(www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu• datblygiad mathemategol• datblygu'r Gymraeg• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd• datblygiad corfforol• datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.